Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Diogelu'r Amgylchedd a'r Cyhoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r DU) 2018** |
| **DYDDIAD** | **7 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Diogelu'r Amgylchedd a'r Cyhoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r DU) 2018**

Mae Rheoliadau 2018 yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli; mae'r darpariaethau hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn.

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom
- Cyfarwyddeb 2011/92/EU

<u>Deddfwriaeth Ddomestig</u>

- Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004

**Effaith yr OS mewn perthynas â Chymru:**

O ran effaith yr OS yng Nghymru, mae'n gwneud mân ddiwygiadau technegol er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio yn weithredadwy ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r OSau (pan fônt yn berthnasol i Gymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol.

**Diben y diwygiadau**

Mae Deddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018 yn caniatáu i ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE gael ei chywiro er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n gywir ac yn effeithiol pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae'r diwygiadau hyn yn mynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r offeryn hwn yn diwygio darpariaethau na fyddant yn gweithio'n gywir oherwydd cyfeiriadau anweithredadwy at offerynnau'r UE ac at derminoleg na fydd bellach yn briodol o'r adeg pan na fydd y DU bellach yn un o aelod-wladwriaethau'r UE.

Oni ddiwygir cyfraith berthnasol yr UE, ni fyddai'n gweithredu'n gywir ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, a hynny i'r fath raddau fel y byddai amheuon am bwerau i barhau i gyflawni swyddogaethau statudol.

Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn sicrhau bod y mesurau diogelu a'r fframweithiau rheoleiddiol presennol yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u bod yn parhau i weithio yn yr un modd unwaith y bydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma:
https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.